Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Chwefror 2015

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 30 – Hysbysu mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

2. Mae'r adroddiad yn argymell diwygio Rheol Sefydlog 30 ynghylch Hysbysu mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU. Mae'r newidiadau y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynnig ar gyfer Rheol Sefydlog newydd i'w weld yn Atodiad B.

## Cefndir

3. Ar 26 Mehefin 2014, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cymru. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Pwyllgor Busnes i dynnu ei sylw at baragraffau 18 a 19 o'r adroddiad:

**"Cymal 8 a Rheolau Sefydlog y Cynulliad**

18. Yng ngoleuni paragraff 16 uchod, mae cymal 8 felly yn rhoi swyddogaeth newydd i'r Cynulliad ac mae wedi amlygu bwlch yn rheolau sefydlog y Cynulliad, sef nad oes ffordd i'r Cynulliad gytuno ar newidiadau i'w swyddogaethau (yn hytrach na'i gymhwysedd) sy'n codi o ganlyniad i Ddeddfau'r DU. Rydym yn credu y dylai fod ffordd o wneud hyn yn rheolau sefydlog y Cynulliad (ac y gellid, er enghraifft, gyflawni hynny trwy ddiwygio Rheol Sefydlog 29).

19. O ganlyniad, rydym o'r farn y dylai'r mater hwn gael ei drafod ymhellach ac y dylai'r Pwyllgor Busnes fynd ar ei drywydd. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod y gall hyn gynnwys trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (o ganlyniad i *Devolution Guidance Note 9: Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales*)."

4. Yn y cyfarfod ar 8 Gorffennaf, cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai swyddogion weithio gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, ac i lunio papur i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Busnes am y cynnydd a wnaed mewn cyfarfod yn y dyfodol.

5. Ar 4 Tachwedd, ystyriodd y Rheolwyr Busnes bapur a oedd yn trafod rhai anawsterau posibl a nodwyd yn y trafodaethau hynny, o ran gweithredu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai fod yn ofynnol cael caniatâd y Cynulliad ar gyfer unrhyw newidiadau i'w swyddogaethau. Ar ôl ystyried y materion hynny, gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r ysgrifenyddiaeth baratoi cynigion ar gyfer diwygio Rheol Sefydlog 30 er mwyn sicrhau bod y Cynulliad hwn o leiaf yn cael hysbysiad ffurfiol o unrhyw newidiadau o'r fath mewn datganiad ysgrifenedig.

**Cynnig ynghylch diwygio Rheolau Sefydlog**

6. Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 30 yn cynnwys gofyniad i osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad mewn perthynas â darpariaethau mewn un o Filiau'r DU 'sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol' mewn ffordd nad yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Dim ond hysbysu'r Cynulliad o'r newid perthnasol mewn swyddogaethau yw diben y datganiad: nid oes gofyniad i'r Cynulliad roi caniatâd ar gyfer newidiadau o'r fath.

7. Ar 20 Ionawr, ystyriodd y Rheolwyr Busnes newid arfaethedig i Reol Sefydlog 30.1 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth o fewn un o Filiau'r DU sy'n addasu swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad.

8. Mynegodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth bryder nad oedd y newid drafft yn caniatáu ar gyfer unrhyw eithriadau i'r gofyniad i osod datganiad, fel sy'n bodoli eisoes ar gyfer newidiadau i swyddogaethau'r Gweinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol.

9. Pan ddychwelodd y Rheolwyr Busnes at y mater ar 3 Chwefror, gwnaethant ystyried diwygiadau drafft amgen. Roedd un o'r rhain yn ymestyn yr eithriadau presennol yn Rheol Sefydlog 30.1 i'r gofyniad newydd, ac roedd un arall yn nodi mai dim ond pan fo Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddarpariaeth berthnasol yn un o Filiau'r DU y byddai'n ofynnol gosod datganiad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes yn unfrydol i gynnig yr ail opsiwn.

**Cam Gweithredu**

10. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn ffurfiol ar 24 Chwefror 2015, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i nodir yn Atodiad B.

## Atodiad A

| Biliau Senedd y DU sy'n Gwneud Darpariaeth y mae Angen Hysbysu'r Cynulliad yn ei chylch | |
|---|---|
| 30.1 Yn Rheol Sefydlog 30, ystyr "Bil perthnasol" yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru (ac eithrio darpariaeth sy'n ddarpariaeth berthnasol o fewn ystyr Rheol Sefydlog 29.1) sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad), neu, hyd y gŵyr y Llywodraeth, y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad. | Mewn perthynas â gwelliant drafft nad oedd yn caniatáu ar gyfer eithriadau i'r gofyniad i osod datganiad, nododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ei bod yn annhebygol iawn, ym marn y Llywodraeth, y byddai'n cael ei hysbysu ynghylch pob newid o'r fath gan Lywodraeth y DU, gan nad oes gofyniad i'w hysbysu ynghylch darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro ac ati.<br><br>Nid yw'r gwelliant arfaethedig yn gwneud eithriadau penodol i'r gofyniad i osod datganiad, ond mae'n nodi'n glir mai dim ond pan fo Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o newidiadau i swyddogaethau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad y mae'n ofynnol gosod datganiadau mewn perthynas â hwy. |

## Atodiad B

## Biliau Senedd y DU sy'n Gwneud Darpariaeth y mae Angen Hysbysu'r Cynulliad yn ei chylch

30.1 Yn Rheol Sefydlog 30, ystyr "Bil perthnasol" yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru (ac eithrio darpariaeth sy'n ddarpariaeth berthnasol o fewn ystyr Rheol Sefydlog 29.1) sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad), neu, hyd y gŵyr y Llywodraeth, y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad.